LLEWELLYN, DAVID TREHARNE (1916-1992), gwleidydd Ceidwadol

Enw: David Treharne Llewellyn
Dyddiad geni: 1916
Dyddiad marw: 1992
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gwleidydd Ceidwadol
Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
Awdur: John Graham Jones

Ganed ef yn Aberdâr ar 17 Ionawr 1916, yn fab i Syr David Richard Llewellyn, Barwnig, perchennog pyllau glo a diwydiannwr, a Magdalene Anne (bu hi farw ym 1966), merch y Parch. Dr Henry Harries, gweinidog gyda'r Bedyddwyr o Dreherbert. Roedd ganddo dri brawd a phedair chwaer. Un o'i frodyr oedd Syr Harry Llewellyn, y dyn ceffylau enwog, capten y Tîm Neidio Ceffylau Prydeinig yn y Gemau Olympaidd ac aelod blaenllaw o'r Jockey Club.

Addysgwyd D. T. Llewellyn yn Eton a Choleg y Drindod, Caergrawnt. Ymunodd â'r fyddin ym 1939 a chafodd ei gomisiynu. Dringodd i safle capten yn y Gwarchodlu Cymreig a chymerodd ran yn ymgyrch Gogledd-Orllewin Ewrop ym 1944-45. Yn y cyfamser bu ei wraig Jo yn gyfrifol am gynnal Swyddfa Seiffr y Cabined Rhyfel. Roedd yn feistr argraffydd, yn newyddiadurwr a darlledwr ac yn aelod o Sefydliad y Newyddiadurwyr.

Ar ôl iddo sefyll yn Aberafan fel ymgeisydd Ceidwadol neu 'Genedlaethol' ym 1945 (lle llwyddodd i ennill mwy o bleidleisiau nag unrhyw Dori o'r blaen, a hynny mewn etholiad lle gwelwyd y Blaid Lafur yn profi buddugoliaeth ysgubol), gwasanaethodd fel AS Ceidwadol Gogledd Caerdydd, 1950-59. Yna penderfynodd ymddeol o Dy'r Cyffredin ar dir iechyd. Ei fwyafrif gwreiddiol yng Nghaerdydd oedd 2900 o bleidleisiau, ond llwyddodd Llewellyn i'w gynyddu ym mhob etholiad canlynol. Ef hefyd oedd aelod cyntaf mudiad Ceidwadwyr Ifanc Cymru a Mynwy. Bu'n is-ysgrifennydd o fewn y Swyddfa Gartref, 1952-53, gyda chyfrifoldeb arbennig dros faterion Cymreig, ond bu cychwyn dioddef o Glefyd Ménière's yn gyfrifol am ei benderfyniad i ddychwelyd i'r meinciau cefn, fel yr awgrymwyd ganddo cyn hynny oni welid gwellhad yn ei iechyd. Ond cynyddu a wnaeth yr afiechyd creulon. Cyn sefydlu'r Swyddfa Gymreig ym 1964, y Swyddfa Gartref oedd yn gyfrifol am reoli Materion Cymreig, ac roedd angen dybryd am ASau Torïaidd galluog, ifanc i wasanaethu yno. Dim ond tri AS Ceidwadol a etholwyd ledled Cymru ym 1950. Gan ei fod ar y meinciau cefn, roedd gan Llewellyn lawer mwy o ryddid i gymdeithasu gyda'r Aelodau Seneddol Llafur o Gymru yr oedd yn mwynhau eu cwmni gymaint.

Ar ôl iddo ddychwelyd i'r meinciau cefn, y farn cyffredinol am Llewellyn oedd ei fod yn aelod seneddol effeithiol o fewn ei etholaeth. Mewn llawer ffordd roedd yn Rhyddfrydwr hen-ffasiwn neu hyd yn oed yn wleidydd radical a deimlai braidd yn annifyr ar y meinciau Ceidwadol yn y Ty Cyffredin. Eto roedd yn gynnes ei gefnogaeth i 'ffordd ganol' Harold Macmillan o Geidwadaeth gorfforaethol. Roedd ef ei hun yn dueddol o ofidio oherwydd ei ddiffyg dawn areithio o fewn y Ty Cyffredin. Fel canlyniad anaml y cymerai ran mewn dadleuon yn y Ty. Hollol nodweddiadol ohono oedd y ffaith mai ar anghenion pensiynwyr yr oedd ei araith forwynol yn y Ty.

Roedd Caerdydd bob amser yn ganolog i'w orwelion gwleidyddol. Cymerai falchder eithriadol ei fod wedi gosod y cwestiwn i Gwilym Lloyd-George a arweiniodd at gadarnhad y byddai dinas Caerdydd yn derbyn statws 'prifddinas Cymru' ym 1955. Argymhellodd Harold Macmillan ef i'w urddo'n farchog yn rhestr anrhydeddau diddymiad y senedd ym 1960. Digiodd rhai o'i hen gyfeillion oherwydd ei benderfyniad i dderbyn yr anrhydedd hwn.

Yn dilyn ei ymddeoliad o fywyd gwleidyddol, trodd Llewellyn at ei gariad mawr arall, sef rasio ceffylau. O 1965 bron hyd at ei farwolaeth cyhoeddodd golofn wythnosol o fewn y cylchgrawn *Sporting Life* o dan y ffug-enw 'Jack Logan'. Roedd ganddo syniadau hollol bendant parthed rasio ceffylau. Cawsant gylchrediad eang gan ennill cryn barch. Ymhlith ei hoff syniadau personol yr oedd hawl merched i gael eu hyfforddi, cael gwared ar bostynnau concrid anniogel ar gyrsiau rasio, cyflog leiafswm ar gyfer y bechgyn a weithiai yn y stablau, a'r angen i'r gymuned rasio wisgo hetiau caled wrth rasio ceffylau y tu allan.

Fel gwr ifanc, ysgrifennodd gryn dipyn o farddoniaeth. Ac yntau'n fawr ei edmygedd o Aneurin Bevan, Llewellyn oedd awdur y cofiant *Nye: the Beloved Patrician* (1961), a hefyd *The Adventures of Arthur Artfully* (1974), a chyfrol o *Racing Quotations* (1988). Roedd hefyd yn llunio colofn reolaidd ar gyfer argraffiad Cymreig y *Sunday People*. Cyhoeddodd yn ogystal golofnau yn y *Western Mail* a'i chwaer bapur gyda'r nos, y *South Wales Echo*.

Priodod ar 18 Chwefror 1950 Joan ('Jo') Williams, ail ferch R. H. Williams, Ty Bonvilston, Tresiwn, ger Caerdydd, a bu iddynt ddau fab ac un ferch. Bu farw 9 Awst 1992 yn ei gartref yn Yattendon, Newbury, Berkshire yn dilyn salwch hir.

Awdur

Dr John Graham Jones

Ffynonellau

Who was who?

Etholiadau'r Ganrif, 1885-1997 (Talybont 1999)

Welsh Hustings - 1885-2004 (Rhydaman 2005)

Dod's Parliamentary Companion

The Daily Telegraph, 11 Awst 1992

The Guardian, 20 Awst 1992

The Independent, 17 Awst 1992

The Times, 12 Awst 1992

Western Mail, 11 Awst 1992

Dolenni Ychwanegol

Archifau LlGC: Sir David Treharne Llewellyn Papers

Wikidata: Q5236686

Dyddiad cyhoeddi: 2011-07-01

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jones, J. G., (2011). LLEWELLYN, DAVID TREHARNE (1916-1992), gwleidydd Ceidwadol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c8-LLEW-TRE-1916

Copïo i'r clipfwrdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGEL
THE NATI

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government